Tachwedd 2017

Annwyl gydweithiwr

Goruchwylio cyfres arholiadau TGAU Gaeaf 2017/18

Cyn pob cyfres o arholiadau, rydym yn ysgrifennu i bob ysgol a choleg i esbonio'r ffordd rydym yn goruchwylio dyfarnu cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Yn y llythyr hwn, byddaf yn canolbwyntio ar yr arholiadau TGAU y bydd dysgwyr yn eu sefyll ym mis Tachwedd eleni, a chydrannau cymwysterau TGAU a Bagloriaeth Cymru y byddant yn eu sefyll ym mis Ionawr 2018.

Cyfres mis Tachwedd 2017

Cymhwyster TGAU Mathemateg newydd – caiff cymwysterau Rhifedd a TGAU Mathemateg eu harholi am y trydydd tro ym mis Tachwedd. Mis Tachwedd eleni hefyd fydd y cyfle cyntaf i ymgeiswyr ailsefyll y cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith.

Cyfres mis Ionawr 2018

Ym mis Ionawr 2018, caiff rhai unedau o'r cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg eu harholi. Gellir hefyd gyflwyno cydrannau unigol o Gyfnod Allweddol 4 a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch i'w cymedroli a'u dyfarnu.

Caiff rhai unedau mewn pynciau TGAU nad ydynt wedi'u diwygio, megis Busnes Cymhwysol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hefyd eu harholi.

Bydd cyfleoedd i ailsefyll cymwysterau TGAU etifeddol am y tro olaf mewn pynciau y cyflwynwyd cymwysterau diwygiedig ynddynt i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2016, megis y gyfres wyddoniaeth. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cyfleoedd i ailsefyll ar wefannau cyrff dyfarnu. Rydym yn disgwyl mai dim ond niferoedd bach o fyfyrwyr a gaiff eu cofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cofrestriadau arholiadau mis Tachwedd

Mae data cofrestriadau dros dro a gasglwyd gan CBAC yn rhoi arwydd cynnar i ni o batrymau cofrestriadau ar gyfer pob cyfres o arholiadau. Rydym yn defnyddio'r data hyn i'n helpu i gynllunio ein dull o oruchwylio'r dyfarniadau a dehongli'r canlyniadau. Byddwn yn cyhoeddi'r data ar gofrestriadau ar gyfer cyfres mis Tachwedd ar ein gwefan ar ddiwedd mis Tachwedd 2017.

Ar gyfer arholiadau mis Tachwedd eleni, mae cofrestriadau ar gyfer Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd yn parhau i fod yn uchel, gyda thua un o bob tri myfyriwr o garfan Blwyddyn 11 yn cael ei gofrestru ar gyfer pob cymhwyster TGAU. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn is nag ym mis Tachwedd 2016. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu dau ffactor sylweddol: yn gyntaf, dyma'r drydedd gyfres o arholiadau ar gyfer y cymwysterau hyn ac nid ydynt yn newydd i ysgolion mwyach, ac yn ail, gwnaeth llawer o fyfyrwyr sefyll yr arholiadau yn yr haf pan oeddent ym Mlwyddyn 10. Nodwn ym mis Tachwedd eleni, fod tua hanner o fyfyrwyr Blwyddyn 11 a gofrestrwyd ym mis Tachwedd eleni wedi sefyll un neu'r ddau gymhwyster hyn ar ddiwedd Blwyddyn 10.

Mae cyfran lai o ymgeiswyr wedi'u cofrestru ar gyfer haen ganolradd cymwysterau Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd o gymharu â mis Tachwedd 2016, gyda chynnydd cymesur mewn cofrestriadau ar gyfer yr haenau sylfaen a'r haenau uwch. Gall y newidiadau hyn i batrwm cofrestru ar gyfer pob haen, lle mae graddau gwahanol ar gael, adlewyrchu proffil gallu cyffredinol gwahanol ar draws y cohort sy'n sefyll yr arholiadau.

Ar y cyfan, mae'r newidiadau hyn i gymwysterau Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd mis Tachwedd eleni yn golygu y gall canlyniadau fod yn wahanol i ganlyniadau mis Tachwedd 2016. Mae'n debygol o'i gwneud yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng y ddwy gyfres o ganlyniadau.

Mae arholiadau mis Tachwedd eleni ar gyfer cymwysterau newydd TGAU Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith ond ar gael i fyfyrwyr sy'n ailsefyll y cymwysterau hyn. Dros yr haf, gwelsom niferoedd uchel o gofrestriadau blwyddyn 10 ar gyfer y ddau bwnc. Mae tua hanner y myfyrwyr Blwyddyn 10 hynny a oedd wedi sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn dros yr haf wedi cael eu cofrestru eto eleni. Nid oes unrhyw gyfres arall o arholiadau y gallwn gymharu cofrestriadau neu ganlyniadau mis Tachwedd eleni â hi.

Cyhoeddi'r canlyniadau

Bydd myfyrwyr yn cael eu canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU mis Tachwedd eleni **ddydd Iau 11 Ionawr 2018.** Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau y diwrnod cynt, sef ddydd Mercher 10 Ionawr 2018

Bydd myfyrwyr yn cael eu canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU ac unedau mis Ionawr **ddydd Iau 8 Mawrth**. Bydd ysgolion a cholegau yn cael y canlyniadau y diwrnod cynt, sef ddydd Mercher 7 Mawrth 2018.

Rhagor o wybodaeth

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi. Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr '*Y Llechen*' . Gallwch gofrestru i gael hwn ar ein **gwefan**

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr